



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Canllawiau ynghylch llenwi'r daenlen monitro
Addasiadau i Dai**

Fersiwn: Ebrill 2019

Cynnwys

1. Trosolwg	3
2. Gwybodaeth bwysig i'w nodi	4
3. Arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid.....	7
4. Sut i lenwi'r templed Excel	8
5. Cwestiynau cyffredin	12

1. Trosolwg

Diolch am gwblhau'r data monitro Addasiadau i Dai. Mae'r data yn helpu i roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am benderfyniadau polisi cenedlaethol ynghylch addasiadau i dai yng Nghymru, ac mae'n rhoi cyfle i ni dynnu sylw at y gwaith cadarnhaol sy'n digwydd yn y maes hwn ledled Cymru. Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r gwaith hwn.

Wrth i chi fynd drwy'r daenlen, fe welwch chi ein bod yn casglu data ar gyfer **pob** math o addasiadau i dai. Bydd hynny'n golygu na fydd rhai meysydd yn berthnasol i'ch sefydliad chi. Fodd bynnag, ni ddylech adael unrhyw feysydd yn wag, ac os nad yw'r maes yn berthnasol i'ch sefydliad chi dylech ddewis 'Amherthnasol'. Dylech lenwi'r maes gan ddefnyddio'r opsiwn sydd fwyaf perthnasol i chi yn y gwymplen. Bydd y daenlen safonol hon ar gyfer cyflwyno data'n hybu dull cyson o weithredu ledled Cymru wrth i 70+ o sefydliadau gyflwyno data. Os nad ydych wedi cael copi o'r daenlen eto, anfonwch neges i flwch ebost Byw yn Annibynnol ac fe anfonwn ni ffeil electronig atoch.

BywYnAnnibynnol@llyw.cymru

2. Gwybodaeth bwysig i'w nodi

Cyfrifoldeb yr adran awdurdod lleol / sefydliad a ariennir gan y Llywodraeth yw anfon y data monitro i Lywodraeth Cymru, nid cyfrifoldeb y sefydliad y caiff gwasanaethau eu gosod ar gontract iddo.

Ni ddylai unrhyw wybodaeth bersonol am gleientiaid gael ei hanfon i Lywodraeth Cymru. Dylai unrhyw wybodaeth a anfonir i Lywodraeth Cymru fod yn ddiennw, a dylid defnyddio'r rhif adnabod os oes angen ffordd o adnabod achos penodol. O ganlyniad, os oes modd, ni ddylech ddefnyddio cyfrinair i ddiogelu'r data ac ni ddylech ei anfon drwy borth diogel arall, ee Egress Switch.

Dylech anfon ffurflen fonitro eich sefydliad **bob chwe mis** ar ddiwrnod olaf pob cyfnod: Hydref a Mawrth. Er mwyn ei gwneud yn bosibl i ffurflenni bodlonrwydd cwsmeriaid gael eu llenwi, dylech ddilyn yr amserlen hon ar gyfer anfon ffurflenni:

Ffurflen ddata	Dyddiad anfon
Ffurflen hanner cyntaf y flwyddyn Ebrill - Medi	31 Hydref 2019
Ffurflen ail hanner y flwyddyn Hydref - Mawrth	30 Ebrill 2020

(Os nad yw'r dyddiadau hyn ar ddiwrnodau gwaith, fe'ch cynghorir i anfon y ffurflenni ar y diwrnod gwaith nesaf)

Mae dyddiad olaf ar gyfer anfon ffurflen bodlonrwydd cwsmeriaid wedi'i gyflwyno. Os **na fydd** eich sefydliad **wedi cael y ffurflen cyn pen mis** ar ôl iddi gael ei hanfon, dylech nodi **Dim ffurflen**.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i leihau gwastraff, felly ni ddylid anfon **unrhyw gopiâu papur** o ffurflenni/arolygon i'r swyddfa. Bydd unrhyw gopiâu papur a geir **yn cael eu dinistrio** heb iddynt gael eu cofnodi.

Dylech ddefnyddio'r daenlen a ddarparwyd gennym ni. Mae'r daenlen wedi'i chloi er mwyn **atal unrhyw newidiadau** ddiwyg a strwythur y ffurflen fonitro. Rhaid i chi ddefnyddio'r fformat hwn. Bydd unrhyw ffurflenni a geir nad ydynt wedi dilyn y fformat a ddarparwyd **yn cael eu dychwelyd er mwyn iddynt gael eu newid a'u hailanfon.**

Peidiwch â gadael unrhyw gelloedd yn wag, os oes modd. Mae celloedd y teitlau'n cynnwys cyfarwyddyd ynghylch a yw llenwi'r gell yn orfodol ai peidio, a chyfarwyddyd ynghylch fformat y cofnod data. Cofiwch am y cyfarwyddyd hwn wrth i chi llenwi'r daenlen. Bydd unrhyw ffurflenni sy'n cynnwys celloedd nad yw'n angenrheidiol iddynt fod yn wag **yn cael eu dychwelyd er mwyn iddynt gael eu newid a'u hailanfon.**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall siwrnai gyfan unigolyn pan fydd yn ceisio cymorth sy'n ymwneud ag addasiadau i dai. Felly, bydd y cwestiwn ynghylch 'dyddiad y cyswllt cyntaf' (cwestiwn 9) yn aros er mwyn ein helpu o ran hynny. Os nad yw'n bosibl cofnodi'r wybodaeth honno, mae adran ar gyfer nodiadau / sylwadau wedi'i hychwanegu at ddiwedd y daenlen. Yn unol â'r safonau gwasanaeth, dyddiad y cyswllt cyntaf yw'r dyddiad pan fydd yr amserlenni darparu disgwylidig ar gyfer yr unigolyn hwnnw'n dechrau. **Noder**, fodd bynnag, os bydd yr atgyfeiriad yn hwyr yn cyrraedd y tîm tai sy'n darparu'r addasiad(au), bydd hynny i'w weld yn y data ac yn amlygu unrhyw fannau posibl sy'n achosi oedi ac y mae angen rhoi sylw iddynt, ac ni fydd yn adlewyrchu'n wael ar y sefydliad sy'n darparu'r addasiad.

Os darparwyd cwymplen, **dylech ddewis o blith yr opsiynau sydd ar gael yn unig**. Bydd unrhyw ffurflenni nad ydynt yn cynnwys yr opsiynau a roddwyd **yn cael eu dychwelyd er mwyn iddynt gael eu newid a'u hailanfon.**

Mae colofnau ychwanegol wedi'u darparu er mwyn casglu gwybodaeth am yr effaith y mae'r addasiad a osodwyd wedi'i chael ar y cleient. Bydd hynny'n disodli'r arolwg bodlonrwydd a anfonir i Lywodraeth Cymru. Dylai eich sefydliad barhau i gynnal arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid er mwyn i chi allu dadansoddi pa mor dda y mae eich gwasanaeth, eich contractwyr a'ch staff yn perfformio. O ganlyniad, **ni ddylid anfon** arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid i Lywodraeth Cymru mwyach. Os bydd unrhyw arolygon o'r fath yn dod i law, **ceir gwared â nhw'n briodol heb iddynt gael eu cofnodi**. Yn achos unrhyw arolygon nas anfonwyd o fodlonrwydd cwsmeriaid, neu arolygon yn y dyfodol o fodlonrwydd cwsmeriaid, dylech gyfeirio at bolisi eich sefydliad ynghylch cadw dogfennau / gwybodaeth.

Dylech anfon unrhyw ffurflenni data ac unrhyw ymholiadau sydd gennych am y maes gwaith hwn i'r blwch ebost isod yn unig; ni ddylech eu hanfon yn uniongyrchol at aelodau'r tîm. Bydd eu hanfon i'r cyfeiriad ebost isod yn sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu'n briodol ac na fydd yn cyrraedd heb fod rhywun yn ei gweld / yn ei chofnodi, oherwydd newidiadau ymhlith y staff, gwyliau ac ati.

BywYnAnnibynnol@llyw.cymru

I osgoi unrhyw ddryswch neu sefyllfa lle na chaiff gwybodaeth ei chofnodi'n gywir, dylech sicrhau na fyddwch yn defnyddio unrhyw dalfyriadau ar gyfer eich sefydliad, ee CSC, wrth anfon eich gwybodaeth am fonitro data. Gallai mwy nag un ardal / sefydliad fod yn rhannu'r un talfyriad neu dalfyriad tebyg, a hynny'n aml heb fod llofnodion ebost yn cael eu rhannu er mwyn dangos pa ardal y mae'r wybodaeth yn perthyn iddi.

3. Arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid

Yn dilyn cael adborth gan nifer mawr o sefydliadau, ac er mwyn symleiddio ymhellach y wybodaeth a gesglir gennym, rydym wedi lleihau nifer y cwestiynau y mae'r arolwg yn eu gofyn. Mae'r ffurflen ddiwygiedig ar gyfer mesur bodlonrwydd cwsmeriaid wedi'i chynnwys gyda'r templed Excel ar gyfer monitro data, ar dab ar wahân, fel bod yr holl wybodaeth ofynnol ynghylch data yn cael ei chadw mewn un man.

Unwaith eto hoffai'r tîm achub ar y cyfle i ddiolch i chi am eich cymorth parhaus a'ch gwaith caled wrth i'r newidiadau pwysig hyn gael eu gwneud i'r modd yr ydym yn gweithio. Hoffem annog pobl i barhau i roi adborth adeiladol i ni er mwyn helpu i wella'r modd y caiff gwaith monitro data ei gyflawni, er mwyn sicrhau ei fod yn dal i wella, ei fod mor gadarn ac ystyrlon ag sy'n bosibl a'i fod yn helpu i ysgogi'r newidiadau sy'n ofynnol er budd defnyddwyr gwasanaeth.

4. Sut i lenwi'r templed Excel

1. **Rhif adnabod [Gorfodol] [Testun rhydd]:**
Dyma rif adnabod unigryw eich sefydliad ar gyfer y cleient/addasiad/eiddo penodol hwn (a fydd yn eich galluogi i adnabod testun data dienw pe bai gofyn rywbryd i chi olrhain achos unigol).
2. **Darparwr [Gorfodol] [Cwymplen]:**
Dyma enw'r awdurdod lleol, y landlord cymdeithasol cofrestredig neu sefydliad arall sy'n gyfrifol am ddarparu'r addasiad. Peidiwch â defnyddio unrhyw dalfyriadau neu acronymau ar gyfer eich sefydliad, ee gallai'r acronym CSC gyfeirio at Gyngor Caerffili, Conwy a Cheredigion. Os nad yw eich sefydliad wedi'i restru, cysylltwch â'r tîm yn Llywodraeth Cymru.
3. **Dyddiad geni [DD/MM/BBBB]:**
Nodwch ddyddiad geni eich cleient ar ddyddiad y cyswllt cyntaf, ar ffurf rhifau.
4. **Deiliadaeth [Gorfodol] [Cwymplen]:**
Dewiswch ddeiliadaeth llety'r cleient o blith yr opsiynau sydd ar y gwymplen yn unig.
5. **Os dewiswyd 'Arall', nodwch y math o ddeiliadaeth [Testun rhydd]:**
Rhowch ragor o fanylion am ddeiliadaeth llety'r cleient, heb ddefnyddio acronymau.
6. **Ffynhonnell yr atgyfeiriad [Gorfodol] [Cwymplen]:**
Dewiswch ffynhonnell yr atgyfeiriad gwreiddiol o blith yr opsiynau sydd ar y gwymplen yn unig.
7. **Os dewiswyd 'Arall', nodwch ffynhonnell yr atgyfeiriad [Testun rhydd]:**
Rhowch ragor o fanylion am y dull atgyfeirio a ddefnyddiwyd, heb ddefnyddio acronymau.
8. **Canlyniadau disgwylidig [Gorfodol] [Cwymplen]:**
Nodwch y canlyniad disgwylidig amlycaf y rhagwelir y bydd yr addasiadau hyn yn esgor arno ar gyfer y cleient.
9. **Dyddiad y cyswllt cyntaf [Gorfodol] [DD/MM/BBBB]:**
Nodwch ddyddiad cyswllt cyntaf y cleient â'r sefydliad gwasanaeth i drafod addasiad neu drafod yr anhawster yr oeddent yn ei gael wrth geisio cyflawni un neu ragor o weithgareddau, a arweiniodd at y cais am addasiad. Dim ond os yw'n eithriadol o anodd i chi gael gafael ar y wybodaeth y dylech nodi 'Anhysbys' yma.

- 10. Dyddiad yr asesiad cychwynnol [Gorfodol] [DD/MM/BBBB]:**
 Nodwch y dyddiad y cwblhawyd yr asesiad cychwynnol o anghenion y cleient, yn y fformat uchod. (**Nodwch** y gallai'r dyddiad hwn fod yr un fath â rhif 9).
- 11. Cwblhawyd yr asesiad gan [Gorfodol] [Cwymplen]:**
 Nodwch rôl yr unigolyn a gwblhaodd yr asesiad cychwynnol, o blith yr opsiynau a ddarparwyd yn y gwymplen, ee Therapydd Galwedigaethol. Os nad oes asesiad wedi'i gwblhau, dewiswch 'Dim asesiad'.
- 12. Os dewiswyd 'Arall', rhowch fanylion ychwanegol [Testun rhydd]:**
 Os cafodd yr asesiad ei gwblhau gan weithiwr proffesiynol arall nad yw wedi'i restru, darparwch ragor o fanylion ynghylch pwy gwblhaodd yr asesiad cychwynnol.
- 13. Dyddiad y cafodd yr angen am addasiad ei adnabod ac y daeth yn ofynnol [Gorfodol] [DD/MM/BBBB]:**
 Dyma'r dyddiad pan gytunwyd â'r cleient mai'r addasiad dan sylw oedd yr ateb gorau, a'i fod yn angenrheidiol ar gyfer y cleient ar y pryd. Gallai fod yn wahanol i ddyddiad y cyswllt cyntaf, ee os yw'r cleient wedi bod yn archwilio opsiynau amgen megis cyfarpar neu lety arall, neu os yw wedi bod yn dilyn rhaglen ailalluogi cyn i'r addasiad gael ei argymhell fel yr opsiwn mwyaf addas. Os yw dyddiad y cyswllt cyntaf a dyddiad yr asesiad cychwynnol yr un fath, nodwch yr un dyddiad.
- 14. Dyddiad y daeth yr atgyfeiriad / argymhelliad i law'r Tîm Tai [Gorfodol] [DD/MM/BBBB]:**
 Nodwch y dyddiad y daeth yr atgyfeiriad neu'r argymhelliad i law'r Tîm Tai er mwyn dechrau ei brosesu.
- 15. Categori'r addasiad [Gorfodol] [Cwymplen]:**
 Dewiswch gategori'r addasiad o blith yr opsiynau sydd ar y gwymplen yn unig. Mae Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Addasiadau i Dai yn darparu diffiniadau o'r gwahanol gategoriâu o addasiadau. Os yw'r gwaith yn perthyn i fwy nag un categori, dylech ddewis y categori mwyaf o'r gwahanol fathau o gategoriâu sy'n berthnasol. Er enghraifft, dyma'r gwahanol fathau o gategoriâu o help:
- "Bach", ee canllawiau cydio a chanllawiau ar gyfer grisiau. **Noder**, mae'r amserlenni ar gyfer darparu addasiadau bach brys / addasiadau bach nad ydynt yn rhai brys yn wahanol; dylech gyfeirio at y safonau gwasanaeth – mae dolen gyswllt wedi'i darparu isod
 - "Canolig", ee addasiadau megis cawodydd heb ris i fynd i mewn iddynt, lifftiau grisiau, a rampiau.

- “Mawr”, ee addasiadau sy’n gofyn am newidiadau strwythurol mawr i eiddo a/neu estyniadau iddo.
- 16. A oes prawf modd wedi’i gynnal? [Gorfodol] [Cwymplen]:**
Dewiswch ‘Oes’ neu ‘Nac oes’ i roi gwybod i ni a oes prawf modd wedi’i gynnal ai peidio.
- 17. A oes angen cyfraniad ariannol gan yr ymgeisydd? [Gorfodol] [Cwymplen]:**
Dewiswch ‘Oes’ neu ‘Nac oes’ o’r gwymplen.
- 18. Os oes, nodwch werth y cyfraniad. [£xx,xxx] [Gorfodol]:**
Nodwch gyfraniad yr ymgeisydd, wedi’i dalgrynnu i’r bunt agosaf.
- 19. Cyfanswm cost y gwaith (gan gynnwys TAW) [Gorfodol] [£xx,xxx]:**
Nodwch gyfanswm y costau gan gynnwys unrhyw ffioedd, costau gweinyddu a chyfraniad y cleient os yw’n berthnasol.
- 20. Dyddiad y gwnaed cais am Grant Addasiadau Ffisegol [DD/MM/BBBB]:**
Nodwch y dyddiad y gwnaed y cais am Grant Addasiadau Ffisegol.
- 21. Dyddiad y cymeradwywyd y Grant Addasiadau Ffisegol [DD/MM/BBBB]:**
Y dyddiad y cymeradwyodd Llywodraeth Cymru y Grant Addasiadau Ffisegol.
- 22. Dyddiad yr oedd yr addasiad/addasiadau yn barod i’w ddefnyddio/defnyddio [Gorfodol] [DD/MM/BBBB]:**
Dyma’r dyddiad y gall y cleient ddefnyddio’r addasiadau.
- 23. Ffynhonnell y cyllid a roddwyd (dewiswch yr opsiwn pennaf yn unig) [Gorfodol] [Cwymplen]:**
Rhestrwch yr holl ffynonellau cyllid a ddefnyddiwyd i ddarparu’r addasiadau dan sylw.
- 24. Os dewiswyd ‘Arall’, nodwch ffynhonnell y cyllid a roddwyd [Testun rhydd]:**
Rhowch ragor o wybodaeth ynghylch sut y cafodd yr addasiad ei ariannu. Os cawsoch gyllid o fwy nag un ffynhonnell, defnyddiwch y lle hwn i nodi’r cyllid ychwanegol a gafwyd.
- 25. A oes arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid wedi’i ddychwelyd? [Gorfodol] [Cwymplen]**
Dewiswch yr opsiwn perthnasol o’r gwymplen.

- 26. Rwy'n gallu gwneud pethau nad oeddwn yn gallu eu gwneud o'r blaen, ac rwy'n teimlo yn fwy hyderus ac annibynnol [Gorfodol, os 'Oes' oedd yr ateb i gwestiwn 25] [Cwysmplen]**

Nodwch a yw'r defnyddiwr gwasanaeth o'r farn bod yr addasiad a osodwyd wedi hybu ei annibyniaeth/lleihau ei ddibyniaeth ar ofalwyr. Mae hynny'n gysylltiedig â chwestiwn 1A yn yr arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid.

- 27. Mae'n haws i fy nheulu/gofalwr helpu gyda fy anghenion pob dydd [Gorfodol, os 'Oes' oedd yr ateb i gwestiwn 25] [Cwysmplen]**

Nodwch a yw'r defnyddiwr gwasanaeth o'r farn bod yr addasiad a osodwyd wedi lleihau ei ddibyniaeth ar ofalwyr. Mae hynny'n gysylltiedig â chwestiwn 1B yn yr arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid.

- 28. Mae ansawdd fy mywyd wedi gwella [Gorfodol, os 'Oes' oedd yr ateb i gwestiwn 25] [Cwysmplen]**

Nodwch a yw'r defnyddiwr gwasanaeth o'r farn bod yr addasiad a osodwyd wedi cael effaith gadarnhaol/negyddol ar ei les. Mae hynny'n gysylltiedig â chwestiwn 1C yn yr arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid.

- 29. Sgôr gyffredinol yr ymgeisydd ar gyfer bodlonrwydd â'r gwasanaeth, yn yr arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid [Gorfodol, os 'Oes' oedd yr ateb i gwestiwn 25] [Cwysmplen]:**

Defnyddiwch y sgôr gyffredinol a roddodd eich cleient ar gyfer bodlonrwydd â'r gwasanaeth, yn yr arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid a gwblhawyd ganddo. Mae hynny'n gysylltiedig â chwestiwn 2 yn yr arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid.

- 30. Nodiadau / Sylwadau ychwanegol (Testun rhydd)**

Defnyddiwch y gell hon i ddarparu naratif pellach ynghylch unrhyw achosion lle gallai naratif o'r fath fod yn ofynnol yn eich barn chi. Er enghraifft, gall gynnwys gwybodaeth am amserlenni nas bodlonwyd oherwydd achos cymhleth, neu unrhyw faterion / arferion gorau yr ydych o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru fod yn ymwybodol ohonynt wrth ddadansoddi'r wybodaeth.

5. Cwestiynau cyffredin

1. Pam y mae angen i fi anfon y wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru?

Mae'r wybodaeth yr ydych yn ei chasglu am y modd y caiff addasiadau i dai eu cyflawni ledled Cymru yn hanfodol er mwyn ein helpu i ddangos effaith addasiadau i dai a dangos y modd y cânt eu cyflawni ledled Cymru, ni waeth pa fath o ddeiliadaeth sy'n berthnasol ac ni waeth ble y mae'r eiddo wedi'i leoli.

Bydd cael y data hwn yn ein helpu i weld ble y mae angen gwneud gwelliannau, ac i raddau'r un mor bwysig bydd hefyd yn ein helpu i dynnu sylw Cymru at yr holl waith yr ydych chi a'ch timau yn ei wneud i ddarparu'r gwasanaethau ataliol hyn sy'n lleihau'r galw ar y GIG ac ar wasanaethau cymdeithasol.

Yn unol â'r Safonau Gwasanaeth sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer Addasiadau i Dai, bydd y data/y wybodaeth a gesglir gan bob sefydliad ynghylch addasiadau i dai yn cael ei gyhoeddi/ei chyhoeddi bob blwyddyn yn y dyfodol.

2. Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn anfon unrhyw wybodaeth i Lywodraeth Cymru?

Mae'r Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai yn nodi y bydd y wybodaeth a gyflwynir am fonitro data'n cael ei chyhoeddi bob blwyddyn. Os na fydd eich sefydliad yn anfon y wybodaeth honno i Lywodraeth Cymru, cyhoeddir na ddaeth unrhyw wybodaeth i law.

Er nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i gyflwyno data, dylech gofio bod gwneud hynny'n ofyniad sydd wedi'i nodi yn amodau a thelerau eich dyraniad o ran cyllid. Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn y dyfodol yn cael ei monitro'n fwy manwl, ac adroddir yn ei chylch.

3. Beth am rannu data dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol?

Ni ofynnwyd am unrhyw wybodaeth bersonol, felly ni ddylid rhannu unrhyw wybodaeth o'r fath â Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n golygu na ddylai fod unrhyw achosion o weithredu'n groes i reolau diogelu data.

4. Pam y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am wybodaeth am **bob** math o addasiadau i dai?

Gwnaeth adolygiadau o addasiadau i dai, a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, nifer o argymhellion ynglŷn â chryfhau'r modd y caiff data ynghylch addasiadau i dai ei gasglu. Ers i'r rhaglen HWYLUSO gychwyn yn 2016, mae gwaith a gyflawnwyd dan y rhaglen wedi cael ei fonitro ac mae data wedi'i anfon i Lywodraeth Cymru. Cafodd ymarfer dadansoddi data ei gynnal yng nghyswllt y ffurflenni data rhwng mis Medi 2016 a mis Rhagfyr 2017, ac rydym wedi cyhoeddi canlyniad yr ymarfer dadansoddi hwnnw ar ein gwefan:

<https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/181129-enable-analysis-report-cy.pdf>

Roedd yr ymarfer yn ddefnyddiol iawn ac mae wedi taflu goleuni gwerthfawr ar y gwaith sy'n cael ei gyflawni mewn rhai ardaloedd. Yn ogystal, datgelodd yr ymarfer nad yw llawer o wybodaeth yn cael ei chasglu ac nad ydym yn gallu dangos yr holl waith da sy'n cael ei wneud. Ni wnaeth nifer sylweddol o sefydliadau anfon unrhyw wybodaeth o gwbl atom, ac rydym yn cydnabod bod hynny'n rhannol oherwydd ein dull o gasglu data.

Mae nifer o wahanol ffrydiau cyllido'n bodoli ar hyn o bryd (ee Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Addasiadau Ffisegol, HWYLUSO, y Gronfa Gofal Integredig ac ati) er mwyn hybu'r addasiadau i dai a gyflawnir ledled Cymru. Un o'r newidiadau mwyaf i'r ffurflen newydd hon ar gyfer monitro data yw'r ffaith y bydd yn cynnwys pob math o addasiadau i dai, o bob opsiwn cyllido, gan gynnwys rhai na chânt eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Bydd hynny'n golygu bod y wybodaeth a gesglir gennym yn fwy ystyrion, oherwydd bydd yn dangos yr holl waith a wneir ar draws pob sector tai i helpu pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, a bydd yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae addasiadau i dai'n ei chael ar deuluoedd ac ar yr agenda atal a lles ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

5. Pa ddata y mae'n rhaid i mi ei ddarparu ynghylch addasiadau i dai?

Mae'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu'n awr yn ymwneud â **phob** math o addasiadau i dai a gyflawnir ledled Cymru, a bydd yn cynnwys y ffynonellau cyllid canlynol:

- Cyllid awdurdod lleol (Grant Cyfleusterau i'r Anabl Gorfodol)
- Cyllid awdurdod lleol (Arall)
- Cyllid landlord cymdeithasol cofrestredig traddodiadol
- Llywodraeth Cymru (Grant Addasiadau Ffisegol)

- Llywodraeth Cymru (HWYLUSO)
- Rhaglen Addasiadau Brys
- Y Gronfa Gofal Integredig
- Cyllid elusenol
- Cyllid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr
- Ffynonellau eraill.

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn casglu'r data hwn gan **bob** sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth hwn, felly bydd y sefydliadau'n cynnwys:

- Awdurdodau lleol
- Asiantaethau Gofal a Thrwsio
- Cymdeithasau tai
- Cymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr.

6. **A fydd unrhyw newidiadau yn y dyfodol i brosesau monitro data am addasiadau i dai?**

Byddwn yn adolygu'r templed Excel a'r canllawiau yn gyson, felly rhwch wybod i ni os oes gennych unrhyw adborth neu bwyntiau yr hoffech eu codi ynglŷn â'r templed newydd a/neu'r canllawiau. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau sylweddol (os oes angen rhai o gwbl) i'r templed Excel tan y flwyddyn ariannol nesaf. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newid arfaethedig cyn iddo gael ei gyflwyno.

7. **Wnes i ddim casglu gwybodaeth am fodlonrwydd cwsmeriaid ar gyfer pob un o'r addasiadau a ddarparwyd. Oes rhaid i mi ddechrau gwneud hynny?**

Yn rhan o'r broses o gasglu data, rydym yn disgwyl i bob darparwr gwasanaeth ofyn am adborth ynghylch bodlonrwydd cwsmeriaid yng nghyswllt y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, a bydd hynny'n berthnasol i **addasiadau bach, canolig a mawr**. Os nad ydych wedi casglu'r wybodaeth hon o'r blaen, dylech ddechrau gwneud hynny er mwyn ein helpu i ddeall yn well yr effaith y mae'r gwasanaethau a ddarperir gennych yn ei chael.

8. **Beth os bydd gennyf unrhyw ymholiadau neu os bydd angen help arnaf?**

Dylech ddarllen y canllawiau sydd wedi'u darparu ynghylch monitro data, cyn llenwi'r templed Excel. Byddwn yn adolygu'r templed Excel newydd a'r canllawiau yn gyson, felly rhwch wybod i ni os oes gennych unrhyw adborth neu bwyntiau yr hoffech eu codi ynglŷn â'r templed newydd a/neu'r canllawiau. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau

sylweddol (os oes angen rhai o gwbl) i'r templed Excel tan y flwyddyn ariannol nesaf.